# Cofnodion Cyfarfod
# Cyngor Cymuned Pistyll

Nos Fawrth 11eg o Chwefror, 2020 am 7:00y.h

Cadeirydd Y Cyngor - Sara Williams



| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **<u>Presenoldeb</u>**<br><br>**Presennol -** Griffith Jones **(GO),** Gwilym Williams **(GW.)**,<br>Lisbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**, John Owen **(JO),**<br>William Jones **(WJ),** Emlyn Hughes **(EH)**, Cyng. Aled Jones **(AJ),** Paul Sandham **(PS).**<br><br>**Ymddiheuriadau -** Sara Williams **(SW),** Ynyr Ellis **(YE)**, Olwen Roberts **(OR).** |
| **2.** | | **<u>Hysbysiadau'r Cadeirydd</u>**<br><br>Gan nad oedd y Cadeirydd na'r Is-gadeirydd yn bresennol cytunodd Gwilym Williams gadeirio am y noson.<br>Croesawodd **GW** bawb i'r cyfarfod ac ymestyn croeso arbennig i Paul Sandham sydd wedi dod i drafod cynllyn band eang i ardal Pistyll. |
| **3.** | | **<u>Datgan Diddordeb</u>**<br><br>Dim. |
| **4.** | | **<u>Diweddariadau asedau</u>**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod. |
| **5.** | <br><br>***5.1***<br><br><br><br><br>***5.2*** | **<u>Cofnodion Cyfarfod Ionawr, 2020</u>**<br><br>**Cyflwyno a mabwysiadu**<br>Derbyniwyd cywirdeb gan **SP** i bwynt 11.2 sef cais i gefnogi Pwyllgor Apêl yr eisteddfod oedd hi wedi ei wneud ac nid cais i gefnogi Eisteddfod Leol. Y Clerc i'w gywiro.<br>Cynigiodd **GJ** gywirdeb gweddill y Cofnodion, eiliodd **LJ** a chytunodd pawb.<br><br>**Materion yn codi**<br><br>**Tramwyo i'r Nant**<br>Esboniodd y Clerc gan fod gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn yn ystod y mis penderfynwyd peidio â llythyru gyda'r Nant fel y cytunwyd yn ystod y cyfarfod.<br>Awgrymodd **SP** i gysylltu yn hytrach gyda Swyddog Llwybrau i weld os bod yr hawliau wedi ei newid. Y Clerc i weithredu. |

*Llofnodwyd gan.............................................................................Dyddiad......................................................*

| | | |
|---|---|---|
| **6.** | | <u>**Ceisiadau Cynllunio**</u><br>Dim |
| **7.** | | <u>**Cyflwyniad gan Paul Sandham ynglŷn â chynllun i gael band eang i ardal Pistyll**</u><br><br>Gwahoddwyd **PS** i'r cyfarfod gan yr Aelod Lleol yn dilyn astudiaeth o broblemau derbyn band eang derbyniol yn yr ardal.<br>Derbyniwyd gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig gan **PS**, esboniodd bod yn bosib lliniaru'r broblem a chreu llif cyson o dderbyniad o Bistyll i Lithfaen trwy osod blwch derbyn ar wal allanol ar 12 adeilad ar hyd y ffordd ar gost o 10% i'r perchnogion. Gofynnodd i'r Cyngor am arwr lleol i drefnu diddordeb yn yr ymgyrch. Gwirfoddolodd **EH** a bydd yn adrodd yn ôl mewn cyfarfodydd yn y dyfodol ar unrhyw ddiweddariad. |
| **8.** | | <u>**Y Ganolfan**</u><br><br>Cynigiodd **SP** i'r aelodau gyfarfod am 6 cyn y cyfarfod ym mis Mawrth er mwyn didoli drwy waith papur y Cyngor sydd yn cael ei gadw yn y Ganolfan. Bydd hithau wedyn yn gwneud trefniadau iddynt gael eu cadw yn yr Archifdy.<br>Gan fod dim newidiadau amlwg i les newydd y ganolfan bydd y Clerc yn trefnu iddi gael ei llofnodi. |
| **9.** | | <u>**Biniau baw ci**</u><br><br>Eglurodd y Clerc ei bod wedi derbyn pris rhesymol am y tri bin ac wedi gofyn i'r Cyngor Sir am ganiatâd i'w gosod ond hyd yn hyn heb dderbyn ymateb ganddynt. Awgrymodd **SP** fod y bin yn West End ar ochor anghywir i'r lon.<br>Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn am ddiweddariad cyn mynd ymlaen i'w archebu. |
| **10.** | | <u>**Arwyddion Dwyieithog Dim Gwersylla a Dim Ysbwriel yn y Maes Parcio ar dop y Nant**</u><br><br>Rhannwyd 2 dempled gwahanol gyda'r aelodau. Y Clerc i drefnu cael ei argraffu. |
| **11.** | | <u>**Materion Lleol**</u><br><br>Derbyniwyd cais gan **GW** i ddarganfod faint o dai sydd yn talu treth i'r Cyngor a faint sy'n talu treth busnes ar safle Plas Pistyll, y Clerc i weithredu. |
| **12.** | <br><br>***12.1*** | <u>**Gohebiaeth a Gwybodaeth**</u><br><br>**Diweddariad ar gwynion materion lleol gan Gyngor Gwynedd**<br>Yn ystod y mis roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad gan y Cyngor Sir bod perchnogion Yr Hen Eglwys yn Llithfaen wedi cytuno byddent yn ymdrechu i docio'r gwrych sydd wedi gôr dyfu. |

*Llofnodwyd gan..........................................................................................Dyddiad.....................................................*

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*

| | | |
|---|---|---|
| | ***12.2*** | **Cais am gymhorthdal gan Glwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl**<br>I'w drafod mis Mawrth |
| | ***12.3*** | **Cais am gymhorthdal gan Ambiwlans Awyr Cymru**<br>I'w drafod mis Mawrth |
| | ***12.4*** | **Aelodaeth Un Llais Cymru (Gwybodaeth)**<br>Cynigiodd **SP** i barhau gyda'r aelodaeth, eiliodd **GJ** a chytunodd pawb.  Y Clerc i weithredu. |
| | ***12.5*** | **Bwletin Newyddion Un Llais Cymru**<br>Derbyniwyd rhan gwybodaeth - nid oedd sylwadau pellach |
| | ***12.6*** | **Ymgynghoriad ar drefniadau Archwilio yn y dyfodol i Gynghorau Cymuned**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod. |
| **13.** | | **<u>Cyllid</u>** |
| | ***13.1*** | **Cyfrifon**<br>Oherwydd problemau technegol, nid oedd modd rhannu'r cyfrifon nac ei argraffu erbyn y cyfarfod. |
| | ***13.2*** | **Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf**<br><br>Taliadau - £160.00 - Cyflog Clerc<br>£  12.55 - Treuliau Clerc<br>£404.20 – Archwilwyr Allanol<br>*Balans -* *<u>£6,565.12</u>*<br><br>**<u>Cyfrif Cadw</u>**<br>*Balans -* *<u>£3406.36</u>* |
| | ***13.3*** | **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod**<br>£160.00 Cyflog Clerc<br>£14.00   Treuliau Clerc<br>£96.00 Ail ymaelodi Un Llais Cymru<br><br>Nodwyd bod **GJ** wedi ceisio trefnu cynnwys ei enw fel llofnodwr yn y Bank ond wedi methu. Y Clerc i geisio ar lein. |
| **14.** | | **Cyfarfod Nesaf y Cyngor**<br><br>Nos Fawrth y 10fed o Fawrth, 2020 |

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiad......................................................*

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*